CABINET

Cofnodion cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2026.

Mae papurau'r cyfarfod ar gael yma.

Mae recordiad o'r cyfarfod ar gael yma.

I weld y cyflwyniad a'r drafodaeth ddilynol ar gyfer unrhyw eitem ar yr agenda yn Rhan I, cliciwch ar y hyperddolen sydd yn y teitl isod.

Yn bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); y Cynghorwyr B.E. Brooks, R.M. Birch, G. John, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson.

C76 CYHOEDDIAD –

Dechreuodd yr Arweinydd drwy sôn am rai materion gweinyddol, a nododd fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw a'i recordio, a'i fod i fod i gael ei uwchlwytho i wefan Cyngor Bro Morgannwg cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod.

C77 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd S.D. Perkes.

C78 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

C79 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi fel cofnod cywir.

C80 ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL SAFONAU'R IAITH GYMRAEG 2025-26 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan Bwyllgor Craffu Dechrau'n Dda, dyddiedig 14 Medi 2026, gan y Cynghorydd Birch, sef yr Aelod Cabinet perthnasol ar gyfer y mater hwn. Cafwyd llawer o drafod a holi trylwyr i'r Swyddogion yn y cyfarfod.

Roedd y Pwyllgor wedi argymell y dylid hysbysu'r Cabinet o argymhelliad Pwyllgor Craffu Dechrau'n Dda ynglŷn â'r posibilrwydd o gynnwys gofyniad yn y disgrifiadau swydd ar gyfer rolau sy'n ymwneud â'r cyhoedd – sef bod yn rhaid i ymgeiswyr

llwyddiannus feddu ar Gymraeg lefel cyflwyno, neu fod yn fodlon dysgu'r iaith, fel sgil allweddol sylfaenol.

PENDERFYNWYD – BOD y Pwyllgor Dechrau'n Dda yn cael diolch am ystyried y mater a gwneud argymhelliad yn dilyn hynny; nododd y Cabinet fod Cyngor Bro Morgannwg eisoes yn annog gweithwyr i fanteisio ar gyfleoedd i ddysgu Cymraeg i safon a fyddai'n eu galluogi i wasanaethu trigolion yr ardal yn well.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau a gafwyd yn y cyfarfod.

C81 (CYF) – GWELLA CYMORTH I BRESWYLWYR YN YSTOD PROFEDIGAETH

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Craffu Adnoddau dyddiedig 16 Medi 2026 gan y Cynghorydd Sivagnanam fel yr Aelod Cabinet perthnasol ar gyfer y mater a diolchodd i'r Pwyllgor am ei ystyriaeth adeiladol o'r cynnig cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol.

Roedd y Pwyllgor yn gefnogol ar y cyfan i uchelgais y Cyngor i wella'r gefnogaeth sydd ar gael i drigolion yn ystod profedigaeth ac yn cydnabod gwerth y cymorth a ddarperir i drigolion yn ystod cyfnodau anodd, ond gofynnwyd i'r Cabinet ystyried yr effaith bosibl y gallai'r cynigion ei chael ar fusnesau Dathlwyr lleol sydd eisoes yn darparu gwasanaeth tebyg ac a ellid darparu gwasanaethau cofrestru marwolaethau i drigolion o fewn cymunedau lleol.

Dywedodd y Cynghorydd Sivagnanam ei bod yn bwysig cydnabod nad bwriad y cynigion oedd cystadlu'n fasnachol â darparwyr presennol, ond yn hytrach cynnig opsiwn gwell, ychwanegol, fforddiadwy a gwydn i drigolion, gan weithio mewn cydweithrediad â phartneriaid presennol.

Bydd swyddogion yn ystyried a ellid darparu gwasanaethau cofrestru yn y gymuned.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynigion i wella'r gefnogaeth i drigolion; felly, ystyrir bod Argymhellion (3) - (6) yn yr adroddiad ffurfiol a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu wedi'u cymeradwyo.

PENDERFYNWYD –

(1) Bod y Pwyllgor Craffu Adnoddau yn cael diolch am ystyried y mater a chyflwyno argymhellion yn dilyn hynny.

(2) Bod y cynigion wedi'u bwriadu i gynnig opsiwn gwell, ychwanegol, fforddiadwy a gwydn i drigolion, a fyddai'n gweithio mewn cydweithrediad â phartneriaid presennol yn hytrach na chystadlu'n fasnachol â darparwyr sydd eisoes yn bodoli.

(3) Bod y cynigion sy'n ymwneud â gwella cymorth i drigolion – ac felly Argymhellion (3) i (6) yn yr adroddiad a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu – yn cael eu hystyried wedi'u cymeradwyo.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-3) Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C82 DRAFFT CYN-YMGYNGHORI HUNANASESIAD BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANWG 2025/26 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, dyddiedig 28 Medi 2026.

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid diolch i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am ystyried y mater.

(2) Y dylid nodi bod argymhellion y Pwyllgor wedi'u cynnwys yn yr adroddiad cysylltiedig o dan Eitem 12 ar yr Agenda, a'u bod i'w hystyried gyda'i gilydd o dan yr eitem honno.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-2) Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C83 RISG GORFFORAETHOL: DIWEDDARIAD CHWARTER 1 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, dyddiedig 28 Medi 2026.

Nododd y Pwyllgor sefyllfa Chwarter 1 o ran risgiau corfforaethol, fel yr amlinellwyd yn yr Adroddiad Crynodeb Risg (Atodiad A); nodwyd hefyd fod y Tîm Arweinyddiaeth Strategol wedi ystyried yr ymatebion i sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer Chwarter 4 2025/26.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai angen ymdrin â'r sylwadau a gyfeiriwyd at y Cabinet i'w cymeradwyo ar lefel y Uwch Dîm Arweinyddiaeth, ac felly byddent yn cael eu cyflwyno yno i'w trafod ymhellach.

PENDERFYNWYD –

(1) Diolch i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am ystyried y mater.

(2) Nodi sylwadau'r Pwyllgor a'u cyfeirio at y Tîm Arweinyddiaeth Uwch i'w trafod ymhellach.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-2) Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C84 CYNNYDD YN ERBYN ARGYMHELLION RHEOLEIDDIOL ALLANOL – CHWARTER 1 2026/27 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, dyddiedig 28 Medi 2026, a nododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad.

PENDERFYNWYD –

(1) Diolch i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am ystyried y mater.

(2) Cymeradwyo tynnu camau gweithredu sydd wedi'u cwblhau oddi ar yr 'Insight Tracker'.

(3) Archwilio'r cais i roi mynediad cynharach i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at ddangosfwrdd Power BI.

(4) Nodi bod y broses o fonitro'r gwahaniaeth rhwng cwblhau camau gweithredu a chyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd – gyda'r canlyniadau hynny wedyn yn cael eu hadlewyrchu drwy'r broses hunanasesu flynyddol – eisoes ar y gweill.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-4) Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C85 CEISIADAU AM BENODIAD AR GYFER SWYDDI GWAG CYFREDOL LLYWODRAETHWYR AWDURDOD LLEOL (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan Banel Ymgynghorol Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol dyddiedig 30 Medi 2026.

Dywedodd y Cynghorydd Birch ei bod yn gadarnhaol gweld pobl yn camu ymlaen ac yn gwirfoddoli am swyddi ar Fyrddau Llywodraethwyr. Ar ddiwedd y cyfarfod dim ond un swydd wag oedd heb ei chwblhau eto, yn amodol ar gytundeb yr ymgeisydd.

PENDERFYNWYD – Y BYDD y penodiadau canlynol yn cael eu gwneud i'r ysgolion fel y nodir isod:

Ysgol	**Nifer y Swyddi Gwag**	**Penodiad**
Ysgol Gynradd Tregatwg	1	Graeme Alexander Wilson
Ysgol Gynradd Dinas Powys	1	Cyng Anne Asbrey

Ysgol Gynradd Gwenfô C/W	1	Susan Price
Ysgol Gynradd High Street	1	Cyng Naomi Marshallsea
Ysgol Gynradd Holton	1	Cyng Pamela Drake
Ysgol Gynradd Parc Jenner	2	Bob Arthur Tharne Geraldine Elaine O'Sullivan
Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr	2	Amanda Geddes Amanda Meadows
Ysgol Gynradd Palmerston	1	Bethany Ann Hillier
Ysgol Gynradd Llanbendr y Fro	1	Lynette James
Ysgol Gyfun Romilly	1	Pete Cate
Ysgol Gynradd Rhws	2	Cyng William Hennessy Julie Green
Ysgol Gynradd Sain Tathan	2	Rhys Anthony Willett Cyng Stephen Haines
Ysgol Gyfun St Cyres	1	Ellie Jones
Ysgol Gynradd Sain Helen	1	Gary Chivers
Ysgol Gynradd St Illtyd	1	Catherine Hill
Ysgol Gynradd Sain Nicolas	2	Luke Lambourne Gordon Kemp
Ysgol Gynradd Sili	1	Penelope Ann Lewis

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C86 DULL STRATEGOL O GYNLLUNIO CYFALAF 2027/28 I 2031/32 (AG/BA) (PWYLLGOR CRAFFU ADNODDAU) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i amlinellu'r dull strategol yr oedd y Cyngor yn ei fabwysiadu ar gyfer cynllunio cyfalaf dros y cyfnod pum mlynedd o 2027/28 i 2031/32.

Roedd y Cyngor yn wynebu amgylchedd ariannol a oedd yn dod yn fwyfwy heriol, ond roedd yn parhau i fod yn uchelgeisiol, gyda Rhaglen Gyfalaf bresennol ar gyfer 2026/27 o ychydig dros £134.9m, a chyfanswm sy'n agosáu at £350m dros y rhaglen bum mlynedd.

O ystyried bod adnoddau cyfalaf ar gael yn gyfyngedig, roedd y Cyngor wedi mabwysiadu proses flaenoriaethu – yn debyg i'r hyn a wnaed yn y blynyddoedd diweddar – sy'n ystyried ffactorau megis gofynion statudol neu iechyd a diogelwch, cyfraniad at flaenoriaethau corfforaethol, ystyriaethau cynaliadwyedd, gwerth am arian, neu ganlyniadau y gellir eu mesur. O ganlyniad, roedd fframwaith ar gael bob amser i flaenoriaethu prosiectau a gwneud penderfyniadau priodol.

Roedd y setliad cyllid cyfalaf blynyddol ar gyfer y Cyngor yn 2026/27 yn £7.739 miliwn. Ar hyn o bryd, roedd 4 cais cyfalaf wedi'u nodi yn Atodiad A, gyda chyfanswm gwerth gros o ychydig o dan £55 miliwn dros y cyfnod o bum mlynedd; roedd angen

asesu pa brosiectau y dylid eu bwrw ymlaen â nhw, a pha drefn flaenoriaeth ddylid eu dilyn, yn seiliedig ar feini prawf y fframwaith.

Roedd derbyniadau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf eisoes wedi'u dyrannu i raddau helaeth ar gyfer y dyfodol, a'r balans a ragwelwyd ar ddiwedd mis Mawrth 2032 oedd £550,000. Gellid hefyd ariannu gwariant cyfalaf drwy gyfraniadau refeniw neu gronfeydd wrth gefn; fodd bynnag, roedd yn rhaid i'r Cyngor sicrhau bod digon o gronfeydd wrth gefn yn aros i liniaru risg rhag ofn y byddai gwariant annisgwyl.

Oherwydd yr adnoddau ariannol cyfyngedig oedd ar gael, parhaodd y Cyngor i ddibynnu'n drwm ar gyllid grant allanol. Nid oedd Atodiad 1 yn cynnwys ysgolion na thai, gan eu bod yn dibynnu ar gynlluniau cyllido ar wahân; roedd yr Atodiad yn dangos yr hyn oedd yn cael ei ariannu drwy adnoddau ariannol y Cyngor ei hun.

Roedd nifer o bwysau allweddol yn parhau dros y tymor canolig i'r tymor hir, gan gynnwys arolygon cyflwr wedi'u diweddaru ar gyfer ysgolion, canolfannau hamdden ac eiddo'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal â datgarboneiddio.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a gynhwysir ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo'r dull y mae'r Cyngor yn ei fabwysiadu o ran Cynllunio Cyfalaf ar gyfer 2027/28 i 2031/32.

(2) Cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu Adnoddau i'w ystyried, a chyfeirio unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor at y Cabinet i'w hystyried.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) I hysbysu'r Cabinet am ddull y Cyngor o ran Cynllunio Cyfalaf ar gyfer 2027/28 i 2031/32.

(2) I hysbysu'r Pwyllgor Craffu Adnoddau am ddull y Cyngor o ran Cynllunio Cyfalaf ar gyfer 2027/28 i 2031/32.

C87 Y KYMIN, PENARTH: Y CYNNIG I'W WAREDU YN DILYN YR YMARFER MARCHNATA (AG/BA) (PWYLLGOR CRAFFU LLE) –

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad Rhan I i roi diweddariad i'r Cabinet ynghylch canlyniad yr ymarfer marchnata ar gyfer gwaredu Tŷ a Gerddi'r Kymin. Roedd y mater hwn wedi cael ei ystyried gan y Cabinet eisoes ym mis Tachwedd 2025 (cofnod y Cabinet C145), pryd y cynigiwyd Y Kymin o dan gytundeb prydles hir.

Roedd y Cabinet wedi penderfynu mynd i'r farchnad i ddod o hyd i ddefnydd ar gyfer yr adeilad yn y dyfodol; er nad yw'r adeilad wedi'i restru, fe'i hystyrir yn 'Drysor y Sir'.

Gwahoddwyd cynigion ar gyfer yr eiddo yn flaenorol, ond nid oedd yr un ohonynt yn addas ar y pryd. Cynhaliodd swyddogion ymarfer marchnata yn 2025 i nodi defnydd cynaliadwy, hirdymor ar gyfer yr eiddo. Derbyniwyd pum cynnig i ddechrau drwy'r ymarfer marchnata, a chafodd y cynigion eu sgorio a'u pwysoli. Symudodd tri chynnig ymlaen, a gwahoddwyd y cynigwyr hynny i gyflwyno eu cynigion gorau a therfynol.

Dangosodd y cynnig i'w ystyried o dan yr adroddiad Rhan II cysylltiedig ar yr agenda y cyfuniad cryfaf o elw ariannol, cyflawniad, cynaliadwyedd hirdymor a chyd-fynd â'r dyheadau a nodir yng Nghynllun Creu Lle Penarth. Yn ogystal â sicrhau buddsoddiad yn yr adeilad, roedd y cynnig yn cynnig y cyfle gorau i ddod â'r eiddo yn ôl i ddefnydd cynaliadwy wrth gadw ei werth treftadaeth a chreu manteision economaidd a chymunedol ehangach.

Roedd adran 6 o'r adroddiad yn manylu ar y camau nesaf, pe bai'r Cabinet yn penderfynu cytuno ar argymhellion yr adroddiad.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a gynhwysir ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad, ynghyd â'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr Adroddiad Rhan II cysylltiedig ar yr agenda, mewn perthynas â'r cynigion a dderbyniwyd ar gyfer y llog prydles hir yn Kymin House and Gardens.

(2) Y dylid, yn amodol ar ddiwydrwydd dyladwy ariannol, cyfreithiol a thechnegol boddhaol, ac ar gadarnhad annibynnol gan brisiwr cofrestredig cymwys bod y telerau arfaethedig yn cynrychioli'r ystyriaeth orau y gellir ei chael yn rhesymol at ddibenion adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, awdurdodi'r Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Landlord Corfforaethol – mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Lle a'r Cyfarwyddwr Amgylchedd a Thai – i gytuno ar y Prif Delerau ar gyfer y brydles arfaethedig a'u cwblhau.

(3) Y dylid rhoi awdurdod i'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i ddrafftio, cwblhau a gweithredu'r holl ddogfennaeth gyfreithiol angenrheidiol i roi penderfyniad y Cabinet ar waith.

(4) Y dylid cymeradwyo manylion pellach, cynnwys ac argymhellion fel y nodir yn Adroddiad Rhan II y Cabinet.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Darparu diweddariad i'r Cabinet ar yr ymarfer marchnata a'r cynigion a dderbyniwyd.

(2) Galluogi'r trafodiad i symud ymlaen drwy nodi'r cynigydd a ffefrir, a hwyluso paratoi a thrafod y Prif Amodau.

(3) Caniatáu cwblhau'r brydles.

(4) Ystyried y wybodaeth sy'n fasnachol gyfrinachol o dan Adran 12a o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y nodir yn Adroddiad Rhan II, a chytuno ar yr argymhellion a gynhwysir ynddo.

C88 DRAFFT TERFYNOL O HUNANASESIAD BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2025/26 (YN DILYN YMGYNGHORI) (AG/BA) (PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AR Y CYD) –

Cyflwynodd yr Arweinydd y Drafft Terfynol o Hunanasesiad Blynyddol (ASA) Bro Morgannwg ar gyfer 2025/26, sydd ynghlwm yn Atodiad A, yn dilyn cwblhau'r broses ymgynghori statudol. Roedd yr Hunanasesiad Blynyddol yn darparu gwerthusiad y Cyngor – sy'n seiliedig ar dystiolaeth – o'i berfformiad, ei ddefnydd o adnoddau a'i drefniadau llywodraethu ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a gynhwysir ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid nodi canfyddiadau'r ymarfer ymgynghori a nodir yn Atodiad B i'r adroddiad, yn ogystal â'r ymatebion i sylwadau ac argymhellion a dderbyniwyd gan randdeiliaid.

(2) Y dylid cymeradwyo'r Drafft Terfynol o Adroddiad Hunanasesu Blynyddol Bro Morgannwg 2025/26, sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad.

(3) Y dylid nodi sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyd-bwyllgor Craffu ar Berfformiad, ynghyd â'r ymatebion arfaethedig a nodir yn Atodiad B i'r adroddiad.

(4) Y dylid cyfeirio'r Drafft Terfynol o Hunanasesiad Blynyddol Bro Morgannwg 2025/26 at y Cyngor Llawn i'w ystyried a'i gymeradwyo.

(5) Y dylid cydnabod y gwaith a wnaed gan Swyddogion, gan gynnwys ymgysylltu â chyrff mewnol ac allanol, drwy gydol y broses hunanasesu ac wrth lunio'r adroddiad.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Ar ôl ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad cyn cymeradwyo'r Drafft Terfynol o'r Hunanasesiad Blynyddol ar gyfer 2025/26.

(2) I alluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

(3) I sicrhau bod adborth gan y Cyd-bwyllgor Craffu ar Berfformiad a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi'i adlewyrchu yng nghanfyddiadau Hunanasesiad Blynyddol y Cyngor.

(4) I geisio cymeradwyaeth y Cyngor Llawn, fel sy'n ofynnol, cyn cyhoeddi'r Hunanasesiad Blynyddol, yn unol â chyfansoddiad y Cyngor a'r gofynion perfformiad.

(5) I gydnabod y gwaith a gwblhawyd er mwyn llunio'r adroddiad.

C89 CRYFHAU CYMUNEDAU: AIL-LUNIO EIN GWAITH GYDA'R SECTOR GWIRFODDOL – DYFODOL Y CYD-BWYLLGOR CYSWLLT AR GYFER Y SECTOR GWIRFODDOL (AG/BA) (PWYLLGOR CRAFFU ADNODDAU) –

Cyflwynodd y Cynghorydd Birch, yn ei allu fel Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Cyswllt â'r Sector Gwirfoddol, yr adroddiad i ystyried trefniadau newydd i gymryd lle'r Cyd-bwyllgor Cyswllt â'r Sector Gwirfoddol, ac i ddiwygio'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

Amlinellwyd y cynigion yn adrannau 4.15.1 i 4.15.6 o'r adroddiad.

Dywedodd yr Arweinydd fod trafodaethau hir wedi'u cynnal gyda Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg a phartneriaid eraill ynglŷn â lefelau ymgysylltu a sut i fynd i'r afael â hynny yn y dyfodol; arweiniodd hyn at y cynnig sydd bellach i'w ystyried.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a gynhwysir ynddo

PENDERFYNWYD – BOD cyfarfodydd y Pwyllgor Cyswllt Cydweithredol Sector Gwirfoddol presennol yn dod i ben, a bod y ffordd ymlaen arfaethedig fel yr amlinellir yn Adran 4.15 yr adroddiad yn cael ei threialu.

Rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn caniatáu ffyrdd cydweithredol newydd a gwell o weithio gyda chynrychiolwyr y Trydydd Sector wrth symud ymlaen i wneud y mwyaf o werth i'r holl randdeiliaid dan sylw.

C90 BARRY MAKING WAVES – ADRODDIAD DIWEDDARU HYDREF 2026 (AG/BA) (DIM PWYLLGOR CRAFFU PERTHNASOL) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad yn Rhan I i geisio awdurdodiad i'r Cyngor gytuno ar Benawdau'r Telerau ac ymrwymo i gontract gwerthu gydag Associated British Ports (ABP).

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a gynhwysir ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad, mewn perthynas â'r prif delerau diwygiedig a gyflwynwyd gan Associated British Ports (ABP).

(2) Y dylid ystyried yr Argymhellion sydd yn yr Adroddiad Rhan II cysylltiedig.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried sefyllfa bresennol y Prif Delerau.

(2) Er mwyn hysbysu'r Cabinet am yr elfennau sy'n sensitif yn fasnachol mewn perthynas â'r prosiect yn y Mole.

C91 DIWEDDARIAD AR HOLM VIEW (AG/BA) (PWYLLGOR CRAFFU ADNODDAU) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i roi diweddariad ar ddatblygiad Holm View. Byddai'r datblygiad hwn yn trawsnewid yr ased cymunedol pwysig hwn ac yn ei ddychwelyd i ddefnydd effeithiol fel canolfan aml-ddefnydd sy'n diwallu anghenion addysgol a chymunedol.

Yn yr achos hwn, byddai'r Cyngor yn gweithredu fel landlord corfforaethol, gyda'r ysgol yn denant allweddol. Golyga hyn y byddai'r cyfleusterau ar gael i'r gymuned eu defnyddio ar ôl oriau ysgol, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol.

Trafodwyd y weledigaeth addysg ar gyfer y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) arfaethedig yn Adran 4.5 o'r adroddiad, gyda phwyslais ar ddysgu galwedigaethol, gan gefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau ymarferol, cyflogadwyedd a byw'n annibynnol sydd eu hangen i symud ymlaen yn llwyddiannus i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth, fodd bynnag, roedd y tîm dylunio yn archwilio ystod o gyfleusterau galwedigaethol a chyfleusterau sy'n wynebu'r gymuned a allai gefnogi cwricwlwm y dysgwyr a mynediad ehangach i'r gymuned, a nodir yn Adran 4.7 o'r adroddiad.

Roedd y Cynghorydd Birch yn falch o nodi y byddai'r cynnig yn gweld defnydd llawn amser o'r cyfleuster ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a'r cyfleusterau hynny ar gael i'w defnyddio gan y gymuned. Hoffai weld y model yn cael ei ymestyn i adeiladau eraill sy'n eiddo i'r Cyngor fel adnoddau y gellid eu defnyddio hyd eithaf eu gallu ac er budd y gymuned.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd y byddai'r cynigion o fudd i bobl Gibbsonsdown ond hefyd i'r rhai cyfagos yn wardiau Cadog a Colcot.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a gynhwysir ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'R cynnydd a wnaed wrth ddatblygu cynigion ar gyfer ailddatblygu Canolfan Hamdden Holm View, a chymeradwyo datblygiad parhaus yr elfen addysg o'r cynllun, gan gynnwys symud ymlaen i gam yr Achos Busnes Amlinellol o fewn y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

(2) NODI'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran elfen gymunedol yr adeilad, gyda gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned ar fin cychwyn yn fuan.

(3) RHOI awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Cyllid/Swyddog S151 a'r Pennaeth landlord Corfforaethol i gytuno ar gontract pris sefydlog gyda'r contractwr a ffefrir ar gyfer Gweithiau Cam 1, ac i gychwyn y gwaith.

(4) RHOI awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Landlord Corfforaethol i gyfarwyddo'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i ddrafftio a chwblhau'r contract angenrheidiol gyda'r contractwr a ffefrir, a chwblhau'r holl waith papur angenrheidiol arall mewn perthynas â hynny.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Galluogi Swyddogion i ddatblygu cynigion manwl o ran dylunio, costau a chyllid drwy gam nesaf proses achos busnes y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

(2) Sicrhau bod elfennau cymunedol yr adeilad yn cyd-fynd ag anghenion y gymuned.

(3) Galluogi penodi contractwr a chychwyn y gwaith heb oedi.

(4) Galluogi ffurfioli'r contract.

C92 ADRODDIAD GWRTHWYNEBIAD: CLOS CYMMER, Y BARRI – GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG ARFAETHEDIG I WAHARDD AROS AR UNRHYW ADEG (WCA) (PWYLLGOR CRAFFU LLE) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i amlinellu manylion y gwrthwynebiadau ac ymatebion swyddogion y Cyngor, a gofynnodd am benderfyniad y Cabinet ynghylch a ddylid gweithredu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig arfaethedig.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a gynhwysir ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid nodi'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd, fel yr amlinellir yn yr adroddiad, mewn perthynas â'r cynnig i wneud Gorchymyn Rheoleiddio Traffig ar gyfer Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg yn Clos Cymmer, y Barri.

(2) Y dylid, ar ôl ystyried y gwrthwynebiadau, gymeradwyo'r cynnig ar gyfer Gorchymyn Rheoleiddio Traffig i Wahardd Aros ar Unrhyw Adeg yn Clos Cymmer, y Barri, ac awdurdodi gwneud a gweithredu'r Gorchymyn.

(3) Y dylid hysbysu'r holl wrthwynebwyr a'r rhanddeiliaid perthnasol am benderfyniad y Cabinet.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) I sicrhau bod y Cabinet yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i ystyried pob gwrthwynebiad a thystiolaeth berthnasol cyn penderfynu a ddylid gwneud y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig.

(2) I alluogi gwneud a gweithredu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig, gan adlewyrchu'r rhesymau a nodir yn yr adroddiad, canlyniadau'r ymgynghoriad statudol, a'r asesiad o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd.

(3) I sicrhau tryloywder, tegwch gweithdrefnol, a chyfathrebu effeithiol drwy hysbysu'r rhai a wrthwynebodd a'r rhanddeiliaid perthnasol yn ffurfiol am benderfyniad y Cabinet a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

C93 CANOLFAN CHWARAEON COLCOT A MEYSYDD CHWARAE BUTTRILLS (WCA) (PWYLLGOR CRAFFU BYW'N DDA) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus helaeth a gynhaliwyd gan y Cyngor i lywio datblygiad yn y dyfodol o Ganolfan Chwaraeon Colcot a Meysydd Chwarae Buttrills. Cafwyd ymateb sylweddol i'r ymgynghoriad, a dangosodd gefnogaeth gref gan y cyhoedd i gadw'r ddau safle fel asedau cymunedol, hamdden a chwaraeon allweddol.

Diolchodd y Cynghorydd Wilson i'r swyddogion perthnasol am eu hasesiad a'u hystyriaeth o'r 700 o ymatebion a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd John at y materion cyffredin a godwyd yn yr ymgynghoriad, fel y nodir ym Mharagraff 4.2 o'r adroddiad. Roedd paragraffau 4.5 a 4.6 o'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at y gefnogaeth i Glwb Bocso Colcot a darpariaeth Cylch Meithrin cyfrwng Cymraeg sy'n gweithredu ar y safle.

Ni fyddai'n bosibl mynd i'r afael â'r holl faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad ar yr un pryd, ond un man cychwyn fyddai cyfle sy'n ymwneud â chae tyweirch artiffisial,

mewn cysylltiad â Sefydliad Pêl-droed Cymru. Byddai hyn yn golygu cyflwyno ceisiadau am grant erbyn diwedd mis Hydref, gyda'r broses ystyried yn digwydd ym mis Tachwedd. Pe bai unrhyw gais yn cael ei dderbyn, byddai'n ariannu 80% o gost y cae newydd.

Pe bai argymhellion yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, nodir y camau nesaf ym mharagraffau 6.1 i 6.7 o'r adroddiad.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a gynhwysir ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a nodir yn yr adroddiad, a chymeradwyo'r adroddiad a nodir yn Atodiad A, sydd â'r teitl: "Adroddiad Ymgynghori: Datblygu Cynlluniau ar gyfer Dyfodol Canolfan Chwaraeon Colcot a Meysydd Chwarae Buttrills, Awst 2026".

(2) Y dylid awdurdodi Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai a Phennaeth Adfywio a Chyflawni Prosiectau Strategol i gynnal asesiadau anghenion pellach, astudiaethau dichonoldeb a gwaith gwerthuso opsiynau, gan ddefnyddio adnoddau presennol, er mwyn nodi atebion y gellir eu cyflawni sy'n ymateb i'r blaenoriaethau a nodwyd drwy'r broses ymgynghori.

(3) Y dylid awdurdodi Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai a Phennaeth Adfywio a Chyflawni Prosiectau Strategol i archwilio cyfleoedd ariannu allanol a threfniadau partneriaeth â chyrff llywodraethu chwaraeon perthnasol, darparwyr grantiau, grwpiau defnyddwyr a sefydliadau cymunedol, er mwyn cefnogi datblygiad y safleoedd yn y dyfodol.

(4) Y dylid cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet yn nodi canlyniadau'r gwaith dichonoldeb, opsiynau datblygu posibl, costau dangosol, cyfleoedd ariannu ac argymhellion ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol.

(5) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151, i gyflwyno cais am grant mewn perthynas â'r cae tyweirch artiffisial sydd ddim bellach yn cael ei ddefnyddio, ac, yn amodol ar gymeradwyaeth a thelerau'r grant, i dderbyn y grant.

(6) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu, y Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, i gynnal a chwblhau'r holl brosesau caffael sy'n ofynnol, gan gynnwys penodi contractwyr/cyflenwyr mewn cysylltiad â darparu'r Cae Tyweirch Artiffisial newydd, yn amodol ar argaeledd cyllid a chydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Contractau a Rheoliadau Ariannol y Cyngor.

(7) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Amgylchedd a Thai i gyflwyno cais/ceisiadau cynllunio i uwchraddio'r cae tyweirch artiffisial sydd ddim bellach yn cael ei ddefnyddio, yn rhinwedd Rheoliad 3 neu Reoliad 4 o Reoliadau Cyffredinol Cynllunio Trefi a Gwledydd 1992 (fel y'u diwygiwyd), os oes angen.

(8) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i gytuno ar, cwblhau, gweithredu a, lle bo angen, selio pob contract, gweithred, cytundeb ac unrhyw ddogfennaeth gyfreithiol gysylltiedig arall sydd ei hangen i roi effaith i'r trefniadau caffael, penodi a chyflawni ar gyfer prosiect y cae tyweirch artiffisial, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor ac ar ôl sicrhau'r holl gymeradwyaethau angenrheidiol.

(9) Y dylid awdurdodi trosglwyddo cyllid o £87,000 o'r gwaith sefydlogi llethrau yn sgil y tirlithriad ym Marina Penarth i gynllun newydd o'r enw 'Cae Tywarchen Artiffisial Colcot'.

(10) Y dylid, yn amodol ar gymeradwyo'r grant ar gyfer y cae artiffisial, awdurdodi cynyddu'r Rhaglen Gyfalaf yn unol â swm y grant a gymeradwywyd, sef tua £493,000.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Gan ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin a mis Awst 2026.

(2-3) I alluogi Swyddogion i archwilio'n llawn yr opsiynau ar gyfer dyfodol y safle, sy'n cyd-fynd â'r adborth a gafwyd yn yr Adroddiad Ymgynghori.

(4) I sicrhau bod y Cabinet yn penderfynu ar ddyfodol y safle, yn dilyn gwaith asesu dichonoldeb.

(5) I sicrhau bod yr awdurdod priodol ar gael i gyflwyno ceisiadau am grantiau ac i dderbyn cyllid grant.

(6) Sicrhau y gellir gwneud yr holl benderfyniadau caffael a dyfarnu contractau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r prosiect yn effeithlon ac yn gyfreithlon, yn unol â fframwaith caffael, cyfreithiol, ariannol a llywodraethu'r Cyngor, ac yn amodol ar argaeledd cyllid.

(7) Cael awdurdod i gyflwyno cais/ceisiadau cynllunio ar gyfer y prosiect.

(8) Sicrhau y gellir cwblhau'r holl drefniadau cytundebol a chyfreithiol sy'n angenrheidiol i weithredu'r prosiect yn effeithlon ac yn unol â gofynion cyfansoddiadol, cyfreithiol a llywodraethu'r Cyngor.

(9-10) Galluogi'r cynllun i symud ymlaen o fewn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2026/27.

C94 CYTUNDEB AR GYFER GWAITH TRWSIO WAL GYNNAL AR WINDSOR ROAD (WCA) (PWYLLGOR CRAFFU LLE) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad er mwyn rhoi diweddariad i'r Cabinet ar gyflwr y Wal Gynnal ar Windsor Road ym Mhenarth, yr ymchwiliadau a'r asesiadau a gynhaliwyd hyd yma, a datblygiad datrysiad adfer hirdymor a ffefrir.

Nododd y Cynghorydd Wilson yr ymateb i'r ymgynghoriad gan un o'r Aelodau lleol, a diolchodd iddo am ei ymateb cadarnhaol.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a gynhwysir ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid nodi cyflwr presennol y wal gynnal ar Windsor Road, Penarth, a'r cynnydd tuag at ddatrysiad i fynd i'r afael â'r materion sefydlogrwydd sy'n ymwneud â hi.

(2) Y dylid rhoi cymeradwyaeth i gyhoeddi dogfennau tendro ar gyfer y cynllun i drwsio'r wal gynnal ar Windsor Road, gan ddefnyddio contract 'Dylunio ac Adeiladu' (NEC4 – Opsiwn A) drwy SEWHF – Lot 7.

(3) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Amgylchedd a Thai – mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu, y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151, a'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd – i ddyfarnu'r contract i'r tendrwr sy'n cynnig y gwerth economaidd gorau, yn unol â thelerau'r contract, y meini prawf gwerthuso cyhoeddedig, a Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor.

(4) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i baratoi, trafod (lle bo angen), cwblhau, selio a gweithredu'r contract, yn ogystal ag unrhyw gytundebau cysylltiedig a dogfennau cyfreithiol eraill sy'n angenrheidiol i roi effaith i'r contract ar gyfer cynllun trwsio'r wal gynnal ar Windsor Road.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Gan ystyried y diweddariad ar statws presennol y prosiect a'r gwaith a wnaed hyd yma i nodi a datblygu cynllun priodol ar gyfer gwella'r wal gynnal.

(2) I alluogi caffael y prosiect yn unol â Rheolau Sefydlog Contractau, Rheolau Caffael a Rheoliadau Ariannol y Cyngor.

(3) I alluogi dyfarnu'r contract i'r tendrwr llwyddiannus mewn modd amserol, ac i gefnogi cyflawniad effeithlon o'r prosiect.

(4) I sicrhau bod yr holl ddogfennaeth gyfreithiol wedi'i chwblhau'n effeithlon ac yn brydlon, yn unol â threfniadau llywodraethu a gofynion statudol y Cyngor.

C95 RHAGLEN DATBLYGU TAI – NEWID DEFNYDD AC ADNEWYDDU 1 PLYMOUTH ROAD, PENARTH AR GYFER LLETY DROS DRO (DSCCT) (PWYLLGOR CRAFFU LLE) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad ar ran yr Aelod Cabinet, yn ymwneud â chyflwyno cais cynllunio ar gyfer newid defnydd ac adnewyddu 1 Plymouth Road, y Barri – eiddo a oedd gynt yn Dŷ mewn Meddiannaeth Aml-aelwyd – er mwyn darparu naw uned o lety dros dro sy'n hunangynhwysol.

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, mae paragraff 3.7 o'r adroddiad yn trafod yr angen i gyflwyno cais cynllunio i benderfynu ar y newid defnydd ar gyfer yr eiddo, gan mai'r Cyngor yw perchennog y tir a'r ymgeisydd.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a gynhwysir ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y cynnig i gyflwyno cais cynllunio a throsi 1 Heol Plymouth, Y Barri yn 9 uned o lety dros dro yn cael ei gymeradwyo.

(2) BOD yr Adroddiad Rhan II cysylltiedig yn cynnwys gwybodaeth ariannol a chaffael sensitif yn fasnachol ac yn ceisio'r cymeradwyaethau angenrheidiol i fwrw ymlaen â'r datblygiad a'r dyfarniad contract cysylltiedig.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Cynghori'r Cabinet am y bwriad i gynyddu'r cyflenwad o lety dros dro newydd sy'n eiddo i'r Cyngor.

(2) Sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud i fwrw ymlaen â'r datblygiad arfaethedig o lety dros dro newydd sy'n eiddo i'r Cyngor.

C96 FFRAMWAITH AR GYFER GOSODIADAU TRYDANOL MEWN TAI, AILDWIFRO, PROFI AC ARCHWILIO, ATGYWEIRIO A CHYNNAL A CHADW 2026-29 (DSCCT) (PWYLLGOR CRAFFU LLE) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad ar ran yr Aelod o'r Cabinet, er mwyn dwyn canlyniad y broses dendro i sylw'r Cabinet. Nod y cyflwyniad oedd ceisio cymeradwyaeth – yn yr Adroddiad Rhan II cysylltiedig ar yr agenda – i dderbyn y cynnig tendr mwyaf manteisiol, ac i ofyn am awdurdod dirprwyedig i weithredu'r contract ar gyfer darparu Fframwaith Gosodiadau Trydanol Tai, Ail-wifro, Profi ac Archwilio, Atgyweirio a Chynnal a Chadw 2026-29.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a gynhwysir ynddo

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad a chanlyniad y broses gaffael, gyda'r bwriad o ystyried dyfarnu'r cytundeb fframwaith, fel y nodir yn yr Adroddiad Rhan II cysylltiedig sydd ymhellach ymlaen yn yr agenda.

Rheswm dros y penderfyniad

I roi gwybod am y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r cytundeb penodol hwn.

C97 CYFLEOEDD DYDD GWASANAETHAU I OEDOLION (GCI) (PWYLLGOR CRAFFU BYW'N DDA) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i amlinellu'r cynlluniau parhaus i symud y cyfleoedd dydd presennol y Cyngor ar gyfer oedolion ag anghenion gofal a chymorth yn Fro Morgannwg, o Ganolfan Adnoddau Hen Goleg i Stryd Thompson. Amlygodd yr adroddiad hefyd gyfleoedd posibl yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau dydd i bobl hŷn yn natblygiad y Western Gateway.

Roedd y Dirprwy Arweinydd yn ymwybodol o faint o waith a aeth i mewn i'r adroddiad, ac o'r ffaith bod defnyddwyr gwasanaethau wrth wraidd unrhyw gynigion a gyflwynwyd.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a gynhwysir ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i leoliad y gwasanaethau dydd.

(2) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, i wneud newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau i oedolion er mwyn rhoi effaith i'r cynigion a nodir yn yr adroddiad.

(3) Y dylid nodi'r trefniadau cyd-gynhyrchu parhaus gyda defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, staff a sefydliadau partner, a gofyn i Swyddogion barhau i ymgysylltu drwy gydol y broses o ddylunio a gweithredu Canolfan Lles Thompson Street.

(4) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i gyfarwyddo'r Pennaeth landlordiaeth Gorfforaethol i drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud ag eiddo yn yr Hen Goleg, ac i'r Swyddog Monitro/Pennaeth

Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd gwblhau'r holl ddogfennaeth gyfreithiol angenrheidiol mewn perthynas â hynny.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) I sicrhau bod y Cabinet wedi cael gwybodaeth lawn a'i fod yn cefnogi'r datblygiadau o ran cyfleoedd dydd i oedolion.

(2) I sicrhau bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithredu gyda'r awdurdod a'r dirprwyaeth briodol.

(3) I sicrhau bod y partïon perthnasol yn cael cyfle i ddylanwadu ar ddyluniad y Ganolfan Lles.

(4) I sicrhau bod y cymeradwyaethau angenrheidiol yn eu lle, er mwyn sicrhau y gellid delio â materion eiddo yn effeithlon.

C98 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL BRO MORGANNWG 2011-2026: 8FED ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2025/2026 (YGCGR) (PWYLLGOR CRAFFU LLE) –

Cyflwynodd yr Aelod o'r Cabinet yr adroddiad a oedd yn ymwneud ag wythfed Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Roedd yr adroddiad yn asesu pa mor effeithiol y mae polisïau'r Cynllun yn cyflawni ei amcanion integredig, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol. Cynhaliwyd yr asesiad yn unol â'r Fframwaith Monitro a nodir yn y CDLl – fframwaith a gytunwyd gan yr Arolygydd fel rhan o Archwiliad y CDLl, ac a fabwysiadwyd wedyn gan y Cyngor ar 28 Mehefin 2017.

Cynghorodd y Cynghorydd Sivagnanam mai'r 8fed AMB fyddai'r olaf i'w gyhoeddi gan y Cyngor mewn perthynas â'r CDLl a fabwysiadwyd. Byddai gwaith monitro yn y dyfodol yn cael ei gynnal yn unol â'r fframwaith monitro newydd ar gyfer y CDLl Amnewid, ar ôl i'r Cyngor ei fabwysiadu – rhywbeth a ddisgwylir ddigwydd tua diwedd 2027.

Roedd yr AMB yn dangos bod cynnydd da wedi'i wneud a bod y CDLl yn parhau i fod yn gadarn. Lle nodwyd problemau, gellid eu priodoli, yn bennaf, i'r hinsawdd economaidd ddiweddar. Nodwyd y prif elfennau yn yr 8fed AMB ym mharagraffau 2.4 i 2.33 o'r crynodeb gweithredol yn Atodiad A.

Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried Argymhelliad ychwanegol ynghylch defnyddio'r weithdrefn penderfynu brys, fel y nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor, gan fod y dyddiad cyflwyno yn disgyn cyn y dyddiad 'galw i mewn' a bennwyd ar gyfer yr adroddiad; cytunwyd ar hyn.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a gynhwysir ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid cymeradwyo wythfed Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2026 ac i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

(2) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Datblygu Cynaliadwy a/neu'r Cyfarwyddwr Lle i wneud newidiadau teipograffyddol neu newidiadau bach eraill, yn ôl yr angen, cyn ei gyhoeddi.

(3) Y dylid awdurdodi defnyddio'r weithdrefn penderfynu brys, fel y nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor, er mwyn galluogi cyflwyno'r AMB i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2026.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) I gydymffurfio â Rheoliad 37 o Reoliadau Cynllunio Tref a Gwlad (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol gynhyrchu Adroddiadau Monitro Blynyddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) (Mawrth 2020) yn darparu canllawiau ar gynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol, y cyfnod y dylai ei gwmpasu, a phryd y dylid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

(2) I wneud newidiadau teipograffyddol neu newidiadau bach eraill yn ôl yr angen, heb fod angen ceisio cymeradwyaeth y Cabinet.

(3) I alluogi cyflwyno'r AMB erbyn y dyddiad gofynnol.

C99 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail eu bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl pob tebyg fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

C100 Y KYMIN, PENARTH: Y CYNNIG I'W WAREDU YN DILYN YR YMARFER MARCHNATA (AG/BA) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFF 14) (EL/PR) (PWYLLGOR CRAFFU LLE) –

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad, a oedd yn rhoi diweddariad i'r Cabinet ynghylch canlyniad yr ymarfer marchnata ar gyfer gwaredu The Kymin House and Gardens. Roedd y mater hwn wedi'i ystyried yn flaenorol gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2025 (cofnod Cabinet C145), pryd y cynigiwyd The Kymin o dan gytundeb prydles hir.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a gynhwysir ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad mewn perthynas â'r cynigion a dderbyniwyd ar gyfer y llog prydles hir yn Kymin House and Gardens.

(2) Y dylid cymeradwyo'r cynigydd a ffefrir a nodwyd yn Adroddiad Rhan II, yn amodol ar ddiwydrwydd dyladwy ariannol, cyfreithiol a thechnegol boddhaol, a chadarnhad annibynnol gan brisiwr cofrestredig cymwys bod y telerau arfaethedig yn cynrychioli'r ystyriaeth orau y gellir ei chael yn rhesymol at ddibenion adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972; a bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Cyllid/Swyddog S151 a'r Pennaeth Landlord Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Lle a'r Cyfarwyddwr Amgylchedd a Thai, i gytuno ar y Prif Delerau ar gyfer y brydles arfaethedig a'u cwblhau.

(3) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i ddrafftio, cwblhau a gweithredu'r holl gytundebau cyfreithiol angenrheidiol er mwyn cwblhau'r brydles i'r cynigydd llwyddiannus.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Ar ôl cael diweddariad ar yr ymarfer marchnata a'r cynigion a dderbyniwyd.

(2) I alluogi'r trafodiad i symud ymlaen drwy nodi'r cynigydd a ffefrir, a thrwy hwyluso paratoi a thrafod y Prif Amodau.

(3) I ganiatáu cwblhau'r brydles.

C101 BARRY MAKING WAVES – ADRODDIAD DIWEDDARU HYDREF 2026 (AG/BA) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFF 14) (DIM PWYLLGOR CRAFFU PERTHNASOL) –

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad i geisio awdurdodiad i'r Cyngor gytuno ar Brif Amodau ac ymrwymo i gontract gwerthu gydag Associated British Ports (ABP).

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a gynhwysir ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Y bod y telerau a nodir yn yr adroddiad a'r goblygiadau sy'n deillio o'r caffaeliad arfaethedig o'r budd rhydd-ddaliadol yn safle'r Mole, gan gynnwys waliau'r

doc a'r rhagfuriau, yn cael eu nodi.

(2) Y bod, ar y cyfan, y buddion adfywio strategol, cyflawni prosiectau a sicrwydd cyllid sy'n gysylltiedig â'r trefniadau arfaethedig yn gorbwyso'r rhwymedigaethau perchnogaeth hirdymor a nodwyd yn yr adroddiad yn cael eu nodi.

(3) Y bod y Cyfarwyddwr Lle, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol ac Aelod y Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a'r Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151, yn cael ei awdurdodi i barhau â'r trafodaethau a symud y ddogfennaeth gyfreithiol angenrheidiol ymlaen hyd at gwblhau cyfreithiol.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried y sefyllfa bresennol o ran caffael 'y Mole'.

(2) Ar ôl cael gwybodaeth lawn am y dystiolaeth sy'n ategu'r penderfyniad.

(3) Er mwyn galluogi Swyddogion i fwrw ymlaen â'r trafodaethau, ac i gwblhau'r strwythur cyfreithiol a'r cytundeb gwerthu.

C102 RHAGLEN DATBLYGU TAI – NEWID DEFNYDD AC ADNEWYDDU 1 PLYMOUTH ROAD, PENARTH AR GYFER LLETY DROS DRO (DSCCT) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFF 14) (PWYLLGOR CRAFFU LLE) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i ystyried gwybodaeth ariannol, caffael a chontractiol sy'n sensitif yn fasnachol, sy'n ymwneud â'r cynnig i ddyfarnu contract adeiladu yn uniongyrchol; gallai datgelu'r wybodaeth hon niweidio buddiannau masnachol y Cyngor a thrydydd partïon.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a gynhwysir ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid cymeradwyo cyflwyno cais cynllunio ar gyfer newid defnydd a throsi 1 Plymouth Road, y Barri – a oedd yn HMO gynt – yn naw uned annibynnol o lety dros dro.

(2) Y dylid awdurdodi Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid, i fwrw ymlaen â'r cynllun, yn amodol ar gael caniatâd cynllunio.

(3) Y dylid cymeradwyo, yn amodol ar gael caniatâd cynllunio, ddyfarnu contract adeiladu'n uniongyrchol i gontractwr sydd wedi'i rag-gymhwyso, a benodwyd o dan Ran 1A (Lot 1A) o Fframwaith Cynghrair Caffael Cymru (Welsh Procurement Alliance Framework).

(4) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151, a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, i gwblhau'r holl drefniadau cyfreithiol, statudol, ariannol a chontractiol angenrheidiol sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) I gynyddu'r ddarpariaeth o lety dros dro a reolir gan y Cyngor, ac i gefnogi dyletswyddau statudol y Cyngor mewn perthynas â digartrefedd.

(2) I alluogi cyflawni'r cynllun yn effeithlon ac osgoi oedi diangen.

(3) I ddefnyddio llwybr caffael sydd wedi'i sefydlu ac sy'n cydymffurfio â rheolau, gan sicrhau hefyd bod y gwaith yn cael ei wneud gan gontractwr profiadol sy'n gallu bodloni gofynion y rhaglen a safonau ansawdd.

(4) I hwyluso gweithredu'r prosiect yn dilyn ei gymeradwyo.

C103 FFRAMWAITH AR GYFER GOSODIADAU TRYDANOL MEWN TAI, AILDWIFRO, PROFI AC ARCHWILIO, ATGYWEIRIO A CHYNNAL A CHADW 2026-29 (DSCCT) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFF 14) (PWYLLGOR CRAFFU LLE) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth i ddyfarnu'r tendr mwyaf manteisiol i Lightning Solutions Electrical Services Ltd. er mwyn cyflawni'r Fframwaith ar gyfer Gosodiadau Trydanol mewn Tai, Ail-wifro, Profi ac Archwilio, Atgyweirio a Chynnal a Chadw 2026-29.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a gynhwysir ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid cymeradwyo dyfarnu'r contract ar gyfer Fframwaith Gosodiadau Trydanol Tai, Awifrio, Profi ac Archwilio, Atgyweirio a Chynnal a Chadw 2026-29 i Lightning Solutions Electrical Services Ltd.

(2) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Amgylchedd a Thai a'r Pennaeth Cyllid/Swyddog S151, a'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd – mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid – i dderbyn y tendr mwyaf manteisiol, ac i gwblhau a gweithredu'r Contract Fframwaith a'r holl ddogfennaeth gontractiol gysylltiedig gyda Lightning Solutions Electrical Services Ltd.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) I gydymffurfio â Rheolau Sefydlog Contractau'r Cyngor, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gontractau sydd â gwerth sy'n fwy na £300,000 gael eu cymeradwyo gan y Cabinet.

(2) I alluogi gweithredu penderfyniad y Cabinet a chwblhau'r trefniadau cytundebol.